# Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

# Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:**

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 13 Rhagfyr 2021

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Dennis Matheson, TFA

Bob Vaughan, CNC

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Marc Williams, CNC

James Ruggeri, HCC

Edward Davies, CNC

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Geraint Hamer, Llywodraeth Cymru

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Ruth Johnston, CNC

Katy Simmons, CNC

Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Chris Thomas, CNC

Fraser McAuley, CLA

Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru

Sarah Hetherington, CNC

Elizabeth Franks, Hafren Dyfrdwy

**Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:**

Dim

**Ysgrifenyddiaeth:**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Charlotte Priddy, AHDB

Kate Snow, United Utilities

Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr Agenda.

   - DS: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent ddatgan hefyd a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw fater ar yr agenda.

3. Croesawyd Chris Thomas, CNC, i'r grŵp gan Zoe. Chris yw'r Cynghorydd Arweiniol ar gyfer y Prosiect Llaeth ac mae wedi ymuno â'r grŵp fel cyswllt uniongyrchol ar gyfer y Prosiect Llaeth.

## Eitem 2 Adolygu'r Cofnodion a Chamau Gweithredu

4. Ar ôl i'r grŵp adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno'n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd y cofnodion hynny'n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i'r cyhoedd. Felly, mae'n bwysig i'r cofnodion fod yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.

5. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2021. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ynghylch cofnodion cyfarfod mis Tachwedd.

6. Rhannodd Bronwen Martin, CNC, ei sgrin fel bod y grŵp yn gallu gweld y camau nad ydynt wedi'u gweithredu. Mae'r diweddariadau canlynol yn berthnasol:

   - PG 07 Awst: Bob a Zoe i ddrafftio llythyr ar ran y grŵp at y Gweinidog ynghylch y ddogfen Cwestiynau Cyffredin a materion yn ymwneud â thenantiaethau

- Diolchodd Bob i Dennis am ddarparu gwybodaeth. Mae Bob wrthi'n drafftio llythyr i Zoe ei adolygu. Bydd Bob yn trafod y llythyr gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru hefyd cyn ei anfon at y Gweinidog fel eu bod yn ymwybodol o'r pynciau a drafodir ynddo.

  - PG 01 Tach: CNC i ddosbarthu'r rhestr o argymhellion â blaenoriaeth i'r grŵp.

- Mae'r cam gweithredu hwn yn gysylltiedig â'r awgrym gan Chris Mills yn ystod cyfarfod mis Tachwedd i edrych ar amcanion/canlyniadau'r grŵp a mapio'r hyn mae sefydliadau sy'n aelodau o'r Is-grŵp yn ei wneud i helpu i gyflawni'r nodau hyn. Mae Ed wedi adolygu'r argymhellion o Adroddiad Interim Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (2018). Awgrymodd Ed fod rhywfaint o waith i'w wneud i ddiweddaru'r argymhellion hyn, fel eu bod yn fwy perthnasol ac yn adlewyrchu'r newidiadau a'r datblygiadau sydd wedi digwydd ers cyhoeddi'r adroddiad yn y lle cyntaf. Mae Ed yn gweithio ar greu rhestr o amcanion yn seiliedig ar yr argymhellion â blaenoriaeth ac yna, yn y tymor hwy, efallai edrych ar lunio adroddiad arall i gynnwys y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma.

## Eitem 3 Materion yn Codi

7. Gwahoddodd Zoe y grŵp i drafod unrhyw faterion sy'n deillio o gofnodion y cyfarfod blaenorol, Papur Diweddaru neu ddogfennau perthnasol.

8. Gofynnodd Fraser McAuley, CLA, i CNC am ddiweddariad cyflym ynglŷn â'r gwaith ffosffad. Dywedodd Bob fod y gwaith ar Afon Gwy yn parhau a bod CNC wedi gofyn am rai newidiadau i'r ffordd mae rhywfaint o'r dosraniad yn cael ei wneud. Dylai'r diweddariad ar safle is-ddalgylch Afon Gwy fod ar gael yn fuan. Mae gwaith ar rai o'r afonydd ACA eraill yn mynd rhagddo a dylem ddechrau gweld canlyniadau yn y Flwyddyn Newydd. Mae CNC wedi cael trafodaethau gyda rhai Awdurdodau Lleol a rhaglenwyr hefyd i edrych ar fodelu maetholion.

   Soniodd Fraser fod rhai aelodau o CLA wedi wynebu problemau gwirioneddol gyda'r broses gynllunio a chael caniatâd, ond mae hynny'n llai pwysig na chyflwr gwirioneddol yr afonydd. Dywedodd Fraser fod CLA wedi rhoi nodyn cyfarwyddyd i'w haelodau ar Niwtraliaeth Maetholion sy'n helpu pobl i nodi'r problemau'n gynharach yn y broses gynllunio. Cadarnhaodd Fraser fod Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru a grwpiau eraill yn helpu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y materion hyn. Gofynnodd Bob a yw'r Nodyn Cyfarwyddyd CLA ar gael i'w rannu'n ehangach. Dywedodd Fraser mai ar gyfer aelodau o CLA yn unig y bwriadwyd y Nodyn Cyfarwyddyd ond y byddai'n gwirio a ellid rhannu copi gyda'r grŵp.

***PG 01 Rhagfyr: Fraser McAuley, CLA, i wirio a ellid rhannu copi o'r Nodyn Cyfarwyddyd Niwtraliaeth Maetholion gyda'r grŵp hwn.***

Soniodd Dennis Matheson, TFA, am erthygl yn y Farmer's Guardian ynghylch y maetholion yn Afon Gwy. Rhoddodd Dennis grynodeb o rai o'r honiadau a wnaed yn yr erthygl a gofynnodd a yw CNC wedi ymateb. Dywedodd Bob fod CNC yn ystyried a ddylid ymateb yn uniongyrchol i'r pwyllgor. Roedd CNC yn disgwyl cael cais i ddarparu rhagor o dystiolaeth i'r pwyllgor ond nid yw hyn wedi digwydd eto.

Soniodd Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin, fod Cyswllt Amgylchedd Cymru wedi derbyn llythyr gan y pwyllgor yn gofyn am ymateb i ddau gwestiwn; mae'r llythyr yn awgrymu hefyd y gallent alw pobl gerbron y pwyllgor eto yn y dyfodol.

Cadarnhaodd Ed fod gwahoddiad wedi'i estyn i gynrychiolwyr DCWW, ynghyd â chydweithwyr ansawdd dŵr CNC sy'n ymwneud â'r gwaith ar Afonydd ACA, ddod i gyfarfod nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

9. Rhoddodd Zoe drosolwg byr o Grŵp Goruchwylio Afonydd ACA y mae wedi'i gwahodd i fod yn aelod ohono. Mae'r grŵp yn cael ei redeg gan Andy Fraser, Llywodraeth Cymru, ac mae'n canolbwyntio ar ffosffadau a modelu. Mae Zoe wedi estyn gwahoddiad i Andy ymuno â chyfarfod Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru yn y dyfodol i drafod y grŵp a'r Byrddau Rheoli Maetholion ledled Cymru. Soniodd Zoe eu bod wedi sefydlu grŵp bach sydd wedi bod yn edrych ar gynllunio ac effeithiau carthion a ffosffad. Byddant yn edrych ar amaethyddiaeth hefyd ac mae Zoe wedi awgrymu y gallai Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru fod yn ddefnyddiol.

10. Ni chodwyd unrhyw faterion eraill gan y grŵp.

## Eitem 4 Trafodaeth ar y Ffair Aeaf

11. Rhoddodd Marc Williams, CNC, drosolwg byr o weithgareddau CNC a'i brofiad o'r Ffair Aeaf. Roedd Clare Pillman (Prif Weithredwr, CNC) yno ar y ddau ddiwrnod; ar y dydd Llun, ymgysylltodd Clare ag amryw o bobl yn nigwyddiad brecwast HCC ac, ar y dydd Mawrth, cyfarfu â chryn dipyn o gynrychiolwyr, gan gynnwys y rhai o Undeb Amaethwyr Cymru, NFU Cymru a CLA. Gofynnodd Zoe a oedd Marc yn teimlo bod llygredd amaethyddol yn uchel ar agendâu pobl yn y Ffair. Dywedodd Marc fod mwy o drafodaeth am goed a choetiroedd nag am lygredd amaethyddol.

12. Dywedodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, fod cydweithwyr a oedd yn bresennol yn dweud ei bod yn hyfryd gweld pobl wyneb yn wyneb eto. Dywedodd cydweithwyr Cyswllt Ffermio a oedd yn bresennol ar stondin Llywodraeth Cymru y cafwyd nifer fawr o ymholiadau am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. O ran Cyswllt Ffermio, nid oedd ymholiadau am lygredd amaethyddol yn gyffredin iawn.

13. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, ei bod yn wych gallu siarad wyneb yn wyneb. Dywedodd Dennis fod y TFA wedi cyfarfod â'r Gweinidog a'i gydweithwyr gan gynnwys Vicky Jones o Lywodraeth Cymru. Cafodd TFA drafodaeth ddiddorol am goedwigaeth. Cyfarfu Dennis â Chyngor Sir Powys hefyd a chadarnhaodd y cyfarfod hwn fod pryder gwirioneddol y bydd ffermydd cyngor yn cael eu gwerthu oherwydd canlyniadau'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

14. Cytunodd Fraser McAuley, CLA, ei fod yn gyfle da i gyfarfod â phobl wyneb yn wyneb. Dywedodd Fraser ei fod ef a'i gydweithwyr yn gwerthfawrogi'n fawr yr amser a dreuliwyd gyda'r rhai y cawsant gyfarfodydd â nhw. Ar y cyfan, cafwyd diwrnodau cadarnhaol ac mae wedi cyffroi pobl ar gyfer y Sioe Fawr y flwyddyn nesaf.

15. Dywedodd Sarah Jones, DCWW, fod ei chydweithwyr wedi mynd i'r Ffair a bod ganddynt fan arddangos a stondin. Dywedodd y tîm ei bod yn debygol bod llai o

ymgysylltu uniongyrchol â ffermwyr yn y Ffair eleni, ond cawsant sgyrsiau ystyrlon gyda rhanddeiliaid a chynrychiolwyr.

16. Awgrymodd Zoe efallai fod angen i bobl ddechrau meddwl am gynlluniau ar gyfer y Sioe Fawr y flwyddyn nesaf a digwyddiad y gwanwyn hyd yn oed, gan fod pethau'n cael eu gadael braidd yn hwyr weithiau. Esboniodd Zoe mai Clwyd yw sir noddi Sioe Fawr 2022 a'u bod wedi bod yn aros yn hir am eu blwyddyn noddi oherwydd y pandemig. Argymhellodd Zoe y dylai'r grŵp drafod cynlluniau ar gyfer sioeau amaethyddol 2022 yn y Flwyddyn Newydd.

## Eitem 5 Cylchlythyr Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

17. Dyma gyfle i'r grŵp roi adborth ar ymateb eu haelodau i rifyn cyntaf Cylchlythyr Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru 'Ein Tir, Dŵr ac Aer' a thrafod pynciau ac erthyglau ar gyfer y rhifyn nesaf.

18. Dywedodd Katy Simmons, CNC, ei bod yn bwriadu cyhoeddi rhifyn nesaf y cylchlythyr yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Anfonodd Ed wybodaeth at yr aelodau cyn y cyfarfod a gofynnodd am syniadau ar gyfer y rhifyn nesaf.

19. Soniodd Katy ei bod eisoes wedi siarad â DCWW ac y byddant yn anfon erthygl draw. Mae yna ychydig o gyfraniadau gan CNC hefyd, ond mae angen i'r cylchlythyr adlewyrchu aelodaeth amrywiol Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Gofynnodd Katy a hoffai unrhyw un wneud unrhyw awgrymiadau heddiw neu, fel arall, gall pobl e-bostio eu syniadau neu eu cyfraniadau yn uniongyrchol ati hi neu Ed.

20. Cadarnhaodd Katy fod 276 o danysgrifwyr i'r cylchlythyr ar hyn o bryd. Dywedodd Katy y bydd yn ystyried cael rhagor o fanylion am y niferoedd hyn ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod nesaf, er enghraifft, beth oedd y gwahaniaeth cyn ac ar ôl cyhoeddi'r rhifyn diweddar.

***PG 02 Rhagfyr: Katy Simmons, CNC, i roi mwy o fanylion am niferoedd y tanysgrifwyr i'r cylchlythyr.***

21. Gofynnodd Zoe i Katy esbonio sut y gall pobl danysgrifio i'r cylchlythyr. Dywedodd Katy y gall pobl fynd ar wefan CNC a thanysgrifio i'r 'pwnc amaethyddiaeth a rheoli tir' neu, pan fydd aelodau'r Is-grŵp yn dosbarthu copi o'r cylchlythyr, gall pobl gofrestru'n uniongyrchol drwy hynny. Gobeithio y bydd y niferoedd yn tyfu gydag amser.

22. Dywedodd Zoe fod hwn yn gyfle gwerthfawr i gyfleu negeseuon a gofynnodd i'r grŵp ystyried beth ddylai eu herthyglau ei ddweud yn y rhifyn nesaf.

23. Awgrymodd Ed y byddai'n fwy cyfleus pe bai'n cysylltu â thimau cyfathrebu'r sefydliadau mwy o faint yn uniongyrchol ar gyfer y mathau hyn o ymholiadau i symleiddio'r broses. Dywedodd Ed, pan fyddai'r cylchlythyr yn cael ei gyhoeddi, y dylai sefydliadau'r Is-grŵp ei rannu â'u haelodau er mwyn sicrhau bod y negeseuon yn cael eu cyfleu.

24. Gofynnodd Zoe a allai'r cylchlythyr gynnwys rhywbeth ar yr afonydd ACA. Dywedodd Bob ei fod yn ffordd dda o gyfleu'r wybodaeth i bobl. Soniodd Bob y byddai'n siarad â

chydweithwyr am ddarparu gwybodaeth i'w rhannu. Awgrymodd Zoe y gallai Creighton a Chris gynnwys rhywfaint o wybodaeth gan eu sefydliadau ar y pwnc hwn hefyd.

25. Dywedodd Zoe ei bod yn bwysig iawn bod y cylchlythyr yn cynnwys cynrychiolaeth amaethyddol ac roedd yn annog undebau'r ffermwyr i ddarparu erthyglau. Bydd hyn yn helpu'r darllenwyr i ddeall hefyd bod y Fforwm yn grŵp cytbwys sydd wedi'i gynrychioli'n dda ac sydd â negeseuon pwysig.

26. Cadarnhaodd Creighton y bydd yn darparu dogfen ar gyfer y cylchlythyr.

27. Awgrymodd Chris Mills y gallai rhai o'r cyflwynwyr gwadd sydd wedi mynychu cyfarfodydd fod yn barod i ddarparu erthyglau byr, er enghraifft, John Morgan o Gymdeithas y Tyfwyr Indrawn. Dywedodd Chris fod cyflwyniad John yn rhagorol ac efallai y byddai'n fodlon cynhyrchu erthygl fer yn crynhoi rhai o'r pwyntiau o'i gyflwyniad am sut i leihau effaith tyfu indrawn ar yr amgylchedd. Cytunodd Zoe, Bob a Katy fod hwn yn awgrym da. Cynigiodd Zoe y gallai Katy ddrafftio erthygl fer i'r unigolyn ei chymeradwyo. Cadarnhaodd Katy y dylai pob erthygl fod tua 300 o eiriau, a gallant gynnwys dolenni i unrhyw wybodaeth ehangach.

28. Gofynnodd Marc a oes gan HCC neu ADHB unrhyw wybodaeth i'w rhannu yn y cylchlythyr nesaf. Cadarnhaodd James Ruggeri, HCC, y bydd cyflwyniad am 'Y Ffordd Gymreig' yng nghyfarfod nesaf yr Is-grŵp. Dywedodd James y byddai'n hapus i ofyn i Dîm Cyfathrebu HCC gael sgwrs gydag Ed neu Katy i ddarparu gwybodaeth.

29. Gofynnodd Bob a allai'r Cylchlythyr gynnwys manylion am sut mae aelodau'r grŵp hwn wedi cyfrannu gwybodaeth a thystiolaeth at wahanol bwyllgorau hefyd. Awgrymodd Creighton y byddai nodi pwy gyfrannodd yn dderbyniol ond dywedodd nad yw'n briodol cynnwys pwy ddywedodd beth. Cytunodd Bob ond roedd yn meddwl mwy am y cwestiynau a osodwyd ymlaen llaw yr oedd y pwyllgor yn eu gofyn.

30. Diolchodd Katy i'r grŵp am gyfrannu at y drafodaeth ddefnyddiol hon a dywedodd y byddai'n cysylltu â'r rhai sydd wedi gwirfoddoli gydag awgrymiadau a syniadau.

## Eitem 6 Adolygiad diwedd blwyddyn a rhagolwg

31. Dyma gyfle i'r grŵp adolygu cyfarfodydd Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru eleni a thynnu sylw at unrhyw bynciau/materion pwysig i'w trafod yn y Flwyddyn Newydd.

32. Awgrymodd Ed y gallai'r grŵp benderfynu beth mae'r grŵp am ganolbwyntio arno yn ystod y 12 mis nesaf a gofynnodd beth yw'r materion pwysig i aelodau'r sefydliadau sydd yma heddiw. Efallai y gallai'r grŵp werthuso rhai o'r trafodaethau a'r cyflwyniadau a gafodd y grŵp yn 2021 hefyd.

33. Gofynnodd Zoe i'r aelodau feddwl am yr un peth yr hoffent i'r grŵp ganolbwyntio arno yn 2022. Dywedodd Zoe yr hoffai i'r grŵp feddwl am gydgysylltu'r hyn sy'n digwydd ar lefel fferm a deall yr hyn sy'n digwydd i helpu i gynyddu'r ymdrech.

34. O ran gwesteion a wahoddir i gyfarfodydd, dywedodd Creighton fod rhai wedi paratoi yn llawn ac yn ymwybodol o'r anawsterau gyda gweithgareddau eu sefydliad, ond bod rhai ond yn dod i geisio gwerthu eu sefydliad. Rhoddodd Creighton enghraifft drwy werthuso'r broses holi ac ateb gydag amryw o'r cyflwynwyr gwadd o gyfarfodydd eleni

a phwysleisiodd bwysigrwydd gofyn cwestiynau i'r cyflwynwyr. Rhoddodd Zoe grynodeb o'r awgrym y gellid briffio cyflwynwyr gwadd cyn iddynt fynychu'r cyfarfod, ond eglurodd fod gwesteion yn cael eu gwahodd i rannu gwybodaeth.

35. Dywedodd Chris Mills y byddai'n hoffi gweld dull mwy systematig. Awgrymodd Chris y dylai'r grŵp fod yn gliriach ynglŷn â'r mathau o lygredd amaethyddol rydym yn ceisio eu hatal, gwerthuso'r sefyllfa bresennol ac yna archwilio, asesu a rhoi cyhoeddusrwydd i'r hyn y gellir ei wneud i atal pob math gwahanol o lygredd. Dywedodd Chris ei bod yn bosibl bod hyn yn cael ei wneud eisoes ond efallai y dylid ei wneud mewn ffordd fwy ffurfiol. Byddai dod â hyn i gyd at ei gilydd yn helpu i nodi'r hyn rydym yn ei wneud a'r hyn rydym wedi'i gyflawni. Awgrymodd Chris y gallai hyn ddechrau gydag asesiad o'r hyn mae'r grŵp wedi'i wneud hyd yma. Bydd y dull hwn yn helpu hefyd i nodi bylchau y gellir mynd i'r afael â nhw wedyn wrth symud ymlaen. Dywedodd Bob fod hwn yn awgrym da, ond bod angen i bawb gydweithio. Mae dull systematig yn ei gwneud yn ofynnol i'r grŵp weithio gyda'i gilydd fel nad oes ymdrech unochrog. Cydnabu Bob y byddai hyn yn amrywio yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael i bob sefydliad, ond mae angen i'r grŵp weithio gyda'i gilydd o hyd i gyflawni'r nod cyffredin hwn.

36. Dywedodd Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru, y gallai ffocws y grŵp hwn ddibynnu i raddau helaeth ar ganlyniadau'r Adolygiad Barnwrol (JR) ac Ymchwiliad y Senedd.

37. Dywedodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, nad oes diweddariad ar yr Adolygiad Barnwrol. Cytunodd Andrew fod awgrymiadau Chris yn synhwyrol. Byddai adolygu'r Argymhellion â Blaenoriaeth yn ddefnyddiol i weld pa gynnydd sydd wedi'i wneud a beth sydd angen ei ddatblygu eleni.

38. Dywedodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, fod gan y grŵp rôl fawr o ran coladu'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i ffermwyr.

39. Dywedodd Liz Franks, Hafren Dyfrdwy, y byddai'n ddiddorol gweld sut y gall y grŵp hwn gyfrannu at y gwaith ehangach sy'n mynd rhagddo ar ansawdd dŵr. Dywedodd Liz fod y grŵp mae Andy Fraser yn ei arwain eisoes wedi'i grybwyll ond bod map ffyrdd ar y gweill hefyd o ran y sefyllfa gorlif stormydd ac sy'n cydnabod y ffynonellau eraill o fewn diwydiannau sy'n effeithio ar ansawdd dŵr ledled Cymru.

40. Cytunodd Fraser McAuley, CLA, â sylwadau Bernard a soniodd y bydd canlyniad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fesurau Amgen yn ddiddorol ac yn bwysig hefyd.

41. Ategodd Geraint Hamer, Llywodraeth Cymru, sylwadau Andrew. Cytunodd Geraint â sylwadau Liz hefyd am gysylltu gwaith ehangach, yn enwedig o ran ffosffadau ac Afonydd ACA.

42. Cytunodd James â'r sylwadau a wnaed, yn enwedig ynghylch canlyniadau'r Adolygiad Barnwrol. Dywedodd James ei bod yn bwysig fod y grŵp yn helpu ac yn cefnogi ffermwyr i wella hefyd.

43. Cytunodd Sarah Jones, DCWW, ag awgrym Chris ynghylch mwy o strwythur o ran pa lygryddion mae'r grŵp yn eu targedu. Dywedodd Sarah fod llawer o drafod am faetholion ond bod DCWW yn wynebu heriau o ran materion ansawdd dŵr eraill (gan gynnwys plaladdwyr, Cryptosporidiwm, afloywder ac ati), felly byddai cael mwy o

wybodaeth am hyn yn ddefnyddiol. Cytunodd Sarah fod casglu gwybodaeth yn bwysig i helpu ffermwyr a gofynnodd a allai'r grŵp geisio dod â'r cyfan at ei gilydd ar gyfer 'siop un stop' y gallai Llywodraeth Cymru ei chynnal.

44. Soniodd Creighton fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi rhyddhau fideo da ar Afon Axe sy'n ymdrin â rhai o'r materion mae gan y grŵp hwn ddiddordeb ynddynt megis ffermydd godro dwys a thyfu indrawn. Fideo YouTube: Environment Agency - Future Farming in the Axe Catchment

***PG 03 Rhagfyr: Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin, i rannu'r ddolen i fideo Asiantaeth yr Amgylchedd.***

45. Dywedodd Sarah Hetherington, CNC, y bydd angen adolygu argymhellion Adroddiad Interim Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (2018) oherwydd datblygiadau a ffrydiau gwaith gan fod rhai o'r argymhellion hyn yn seiliedig ar y mentrau presennol adeg ysgrifennu'r adroddiad. Awgrymodd Sarah hefyd y dylid edrych ar ba gyfleoedd sydd yna gyda'r Strategaeth Economaidd Wledig i weld beth all y grŵp ei wneud. Esboniodd Sarah fod y Rhaglen Datblygu Gwledig yn dod i ben yn 2021, a'i bod yn debygol y bydd fersiwn ddomestig newydd yn cael ei chyflwyno yn ei lle a fydd yn dod o dan Strategaethau Economaidd Gwledig. Awgrymodd Zoe y gallai Sarah arwain sesiwn ar hyn yn y dyfodol i helpu'r grŵp i nodi lle mae cyfleoedd.

46. Diolchodd Bronwen i'r aelodau am eu cyfraniad eleni o ran awgrymu eitemau ar gyfer yr agenda, gan helpu i gydgysylltu eu cydweithwyr i gyflwyno i'r grŵp a darparu dolenni a gwybodaeth i'w dosbarthu i weddill y grŵp.

47. Dywedodd Chris Thomas, CNC, fod llawer o'r atebion mae'r grŵp yn edrych arnynt yn atebion 'terfynol' a'u bod yn edrych ar sut i ddatrys problemau. Y broblem yn y pen draw yw dwysáu gwahanol ddiwydiannau amaethyddol. Dywedodd Chris fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar yr arddull ffermio gychwynnol, ond y dylai'r grŵp edrych ar yr holl broses ac archwilio hyn yn ddyfnach i ddarganfod y rhesymau dros ddwysáu amaethyddol. Cytunodd Chris Mills â'r sylwadau hyn; mae'n trin y symptomau ar hyn o bryd yn hytrach na'r achos, ac mae angen gwneud y gwrthwyneb. Wrth ddatblygu dull strategol, dywedodd Ruth Johnston, CNC, fod angen ystyried y mewnbynnau i'r system hefyd er mwyn dod â'r darlun cyfan at ei gilydd a sicrhau bod y negeseuon yn gweithio i'n cynulleidfa.

48. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, y dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r Prosiect Llaeth a darbwyllo Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o gyllid ar gyfer y prosiect. Bu Dennis yn trafod rhai o'r heriau a'r materion sy'n ymwneud â chyfraith tenantiaeth hefyd.

49. Dywedodd Chris Thomas, CNC, fod angen i ni fod yn ofalus gyda chanlyniadau anfwriadol a thrafododd y ffaith bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn dechrau gwahardd defnyddio slyri ar eu ffermydd ac yn pwyso ar ffermwyr i ddefnyddio tail buarth.

50. Dywedodd Ed fod y drafodaeth hon wedi bod yn ddefnyddiol iawn.

## Eitem 7 Unrhyw Fater Arall

51. Soniodd Chris Mills fod adroddiad wedi'i ysgrifennu a'i gyhoeddi gan Dr Guy Mawle - A dying river? The State of the River Usk Report. Rhoddodd Chris grynodeb o rai o ganfyddiadau'r adroddiad.

***PG 04 Rhagfyr: Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, i rannu dolen i adroddiad Afon Wysg.***

Dywedodd Zoe fod CNC wedi derbyn copi o'r adroddiad a gofynnodd i Bob a oedd ganddo unrhyw beth i'w ddweud amdano. Dywedodd Bob fod cyflwr Afon Wysg yn peri pryder ac y bydd cydweithwyr yn debygol o ymateb i'r adroddiad a'i ganfyddiadau.

52. Dywedodd Ruth Johnston, CNC, y disgwylir gwybodaeth am Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 2021 y mis hwn neu'r mis nesaf.

53. Dywedodd Bob fod cyfres o weithdai thematig wedi'u cynnal yn ddiweddar a bod rhai aelodau o'r grŵp wedi eu mynychu. Mae'r sesiynau hyn wedi'u cysylltu â gwaith Datganiadau Ardal ac wedi bod yn ddefnyddiol o ran dod â phobl at ei gilydd i drafod pynciau a cheisio cynnig atebion.

54. Awgrymodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, y gellid rhoi diweddariad am y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fesurau Amgen yn y cyfarfod nesaf.

***PG 05 Rhagfyr: Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, i roi diweddariad am y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fesurau Amgen yn y cyfarfod nesaf.***

55. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 17 Ionawr 2022 ar Microsoft Teams.

56. Dymunodd Zoe Nadolig Llawen i'r grŵp a diolchodd i bawb am eu hymdrechion eleni.

## Diwedd y cyfarfod